Sharer, s. rhaniedydd; cydgyfranog
Sharing, s. rhaniad, rhanedigaeth; part. gan ranu
Shark, sub. morgi gwyn, ysglyfiwr; v. cipio, ysglyfio
Sharp, a. llym; pigfain; blin, poenus; sur, chwibl
Sharp-edged, a. awchlym
Sharp-pointed, a. blaenfain
Sharp-set, a. gwancus
Sharp-sighted, a. llygad-graff
Sharpen, v. golymu, awchlymu
Sharpened, a. golymedig
Sharpener, s. golymwr
Sharper, s. llymddyn, dyn cyfrwyslym; hud-leidr
Sharply, ad. yn llym, yn awchlym, yn bigog; yn chwibl
Sharpness, s. llymder, toster; gerwindeb, chwerwedd; blaenllymedd; surni
Sharp-visaged, a. wyneb-lym
Shatter, v. chwilfriwio, ysigo
Shatterbrained, a. penwan
Shattered, a. drylliog, chwilfriw
Shave, v. eilllio; rhasgllo
Shaved, shaven, part. eilliedig
Shaver, s. eilliwr, eilliedydd
Shaving, s eilliad; rhasgliad
Shavings, s. rhasglion
Shaw, s. prysg, ffrith
Shawl, s. gwddf-len
She, pron. hi; hithau
Sheaf, s. ysgub; v. rhwymo yn ysgubau
Shear, v. cneifio; gwelleifio
Sheared, a. cneifiedig
Shearer, s. cneifiwr
Shearing, s. cnaif, cneifiad
Shearman, s. gwelleifiwr
Shears, s. gwellaif, gwelleifian
Shear-water, s. gwylan lwyd

Sheath, s. gwain; v. gweinio
Sheathe, v. gweinio; goseilio; llong
Sheathed, a. gweiniedig
Sheathing, s. gweiniad
Sheath-maker, s. gweiniwr
Sheathy, a. gweiniog
Shed, s. lluest; penty; v. tywallt; gollwng; colli; dyhidlo
Sheen, s. llewyrch
Sheep, s. dafad, defaid
Sheep-cot, sub. buarth defaid
Sheepfold, sub. corlan defaid
Sheepish, a. gwladaidd, hurt
Sheepmaster, s. perchen defaid
Sheepshearing, s. amser cneifio; gwledd gneifio
Sheepwalk, s. pordir defaid
Sheer, a. glân, pur; v. ffoi
Sheer-grass, s. hesg
Sheet, s llèn; pl. llèni; llenlian; pl. llenlieiniau
Sheet-anchor, s. y prif angor
Sheeted, a. wedi el lenlicinio
Sheeting, s. llian llenlieiniau
Shekel, s. darn arian 2s. 6ch.
Shelf, s. estyllen; trestl-fwrdd
Shell, s. crogen; plisgyn, mesglyn; v. a. dyspeiniaw
Shelly, a. cragenaidd, cragenog; cibog, cibynog
Shells, s. cregyn; masgl, plisg
Shelter, s. diddosrwydd
Sheltering, s. gwasgodiad; part. yn gwasgodi
Shelterless, a. diwasgod
Shelves, s. estyll, crogfyrddau
Shelving, part. llechweddog
Shelvy, a. beisleog
Shent, v. beio, ceryddu
Shepherd, s. bugail, areiliwr
Shepherd's-hut, bugeildy
Shepherdess, s. bugeiles
Sherbet, s. sur-fedd
Sheriff, s. sirydd, swydd lwydd
Sheriffalty, sheriffdom, s. siryddiaeth
Sherry, s. melus-win godidog
Shew, sub. ymddangosiad, golygiad; lliw, rhith; gweledigaeth; v. dangos arddangos
Shewed, shewn, part. dangosedig
Shewy, a. dangosiadus
Shield, s. tarian, asant; v. tarianu, gorthoi, amddiffyn
Shielded, part. tarianog
Shielding, s. gorthoad â tharian; part. yn amddiffyn
Shift, s. crys benyw; dychymmyg, dyfais; v. troi, ymnewid; ymochelyd; ymdaro
Shifted, part. newidiedig
Shifter, s. hocedwr; dyn anwadal
Shifting, sub. newidiad; symudiad, dichell; a. cyfrwys
Shiftless, a. difedr, diffordd
Shilling, s. swllt, 12 ceiniog
Shily, ad. yn ochelgar
Shin, s. crimmog
Shine, v. dyscleirio, tywynu
Shiness, s. cilgarwch, gochelgarwch; cywilyddgarwch
Shingle, s. peithwydden, estyllen hollt, estyllen dô
Shingles, s. rhyw groen-glefyd, eryrod, crugdardd poeth
Shining, a. tryloyw, dysclaer
Shiny, a. dysclaer
Ship, s. llong, ysgoren; v. rhoi mewn llong, llongi
Shipboard, ad. bwrdd llong, mewn llong
Shipman, s. llongwr, morwr
Shipping, s. y llongau
Shipwreck, s. llong-ddrylliad
Shipwrecked, a. llong-ddrylliog, llong-ddrylliedig
Shipwright, s. saer llongau
Shire, s. sir, swydd
Shirt, s. crys; v. gwisgo crys
Shirtless, a. digrys
Shite, v. tomi, cachu
Shitten, part. bawlyd, cachlyd
Shive, s. ysgyren

Shiver, s. ysgyrionyn; pl. ysgyrion; v. crynu, ysgyrioni
Shivering, s. cryndod; delltenlad
Shoal, s. haig, lliaws; basle; a. bas; v. basau
Shoaly, a. heigiog; beisleog
Shock, s. ergyd; siglad; braw; cogwrn; v. taro, siglo; brawychu; cogyrnu
Shocked, part. yn arswydo
Shocking, a. echryslawn
Shod, part. pedolog; pedoledig
Shoe, s. esgid, archen; pedol; v. pedoli, archenu
Shoe-boy, s. glanhawr esgidiau
Shoeing, s. archeniad; pedoliad
Shoemaker, s. crydd, esgidiwr
Shog, s. ergyd; sigliad; braw; cogwrn; v. taro, siglo; brawychu; cogyrnu
Shone, pret. *of shine*, llewyrchodd
Shook, pret. *of shake*, siglodd
Shoot, s. impyn, ysbrigyn; ergydio, taflu; blaguro, tarddu allan
Shooter, s. saethydd
Shooting, s. saethiad
Shop, s. masnachdy; gweithdy
Shopboard, s. bwrdd-gweithio
Shopkeeper, s. siopwr
Shopman, s. hur-fasnachwr
Shore, s. glan y mor, traeth
Shorling, s. dafad gnaif
Shorn, part. cneifiedig
Short, a. dyr, cwta, cryno
Shorten, v. byrhau, cwtogi
Short-hand, s. byr-ysgrif
Short-lived, a. byr-hoedlog
Shortly, ad. ar fyr; yn fyr
Shortness, s. byrdra
Short-sighted, a. byr-olwg
Short-winded, a. byr-anadlog
Shot, sub. haels, grawn, dryll; ergyd dryll; cyfrif; a. saethedig; wedi ei saethu
Shotten, part. dirawnedig, dironell; ceuledig
Shotfree, a rhydd o gyfrif
Should, v. dylem, dylech, dylent, dylai
Shoulder, s. ysgwydd; palfais; v. ysgwyddo; attegu
Shoulder-blade, s. palfais
Shout, s. bloedd; v. bloeddio
Shouting, s. bloeddiad
Shove, s. gwth; v. gwthio
Shovel, s. rhaw; v. rhofio
Shoveller, s. rhofiwr
Show, s. ymddangosiad, golygiad; lliw, rhith; gweledigaeth; v. dangos, arddangos
Show-bread, s. bara gosod
Shower, s. cawad, cawawd
Showery, a. cawadog
Shown, part. a. ddangoswyd
Showy, a. dangosiadus, dangosiadwy
Shred, sub. cinyn, cilcyn, carp. llarp, trychyn, trychionyn
Shrew, s. cecrai, cecres
Shrewd, a. cefrwys, ystrywgar
Shrewdly, ad. yn gyfrwys
Shrewdness, s. cyfrwysdra
Shrewsbury, s. Amwythig
Shriek, sub. ysgrech; v. ysgrechian
Shrift, s. clust-gyffes
Shrill, a. uchelfain, gwichlyd
Shrillness, s. uchelfeinedd
Shrimp, sub. berdas, berpysyn, bardysen; gwichiedyn; cor
Shrine, s. creirfa; teml
Shrink, v. ymgrynhoi, tynu ato
Shrinking, s. ymgrynhoad
Shrive, v. ymgyffesu
Shrivel, v. crychu; tolcio
Shrivelled, a. crych; tolciog
Shriven, part. wedi ymgyffesu
Shropshire, s. sir Amwythig
Shroud, sub amdo, amwisg; gwasgod; v. amwisgo; gwasgodi
Shrouded, a. amdoedig
Shrouds, s. hwyliau a rhaffau uchel raffau a hwyliau llong

Shrovetide, shrove-Thursday, s. gwyl gyffes, Mawrth Ynyd
Shrub, s. prysgen, manwydden
Shrubby, a. prysglog
Shrubs, sub. prysg, prysgoed, prysgwydd, manwydd
Shrug, s. crynhoad yr ysgwyddau, ysgryd, echryd; v. crebachu'r ysgwyddau
Shrunk, part. yn grebachog, crebachedig
Shudder, sub. ysgrydd; v. dychrynu
Shuddering, part. dan grynu
Shuffle, sub. cymmysgiad; ysgwydiad; cyfrwys gast; v. ysgwyd, siglo; cymysgu
Shuffler, s. hocedwr
Shuffling, s. sigl; hoced
Shun, v. gochel, gochelyd
Shunned, part. gocheledig
Shunning, s. gocheliad; part. yn gochel
Shut, v. cau; part. cauedig, yn gauedig
Shutter, s. canwr; cauad
Shutting, s. caead, cauad
Shuttle, s. gwennol gwehydd
Shuttle-cock, s. ehed-gorc
Shy, a. cilgar, gochelgar, yswil
Shyness, s. gochelgarwch
Sibilant, a. chwithrwdol
Sibilation, s. hysiad, hwtiad
Sibyl, s. sibli
Sicamore, s. masarn
Siccate, y. sychu
Siccation, s. sychiad
Sice, s. rhif chwech ar ddisiau
Siccity, s. sychder
Sick, a. claf, llesg
Sickish, a. clafaidd
Sicken, v. clafychu
Sickle, s. cryman
Sickliness, s. anhwyldeb
Sickly, a. anhwylus, clafyca
Sickness, s. selni, afiechyd
Side, s. ochr, ystlys; tu, plaid
Sideboard, s. ystlys-fwrdd
Sideral, a. serol, yn ol y ser
Sideration, s. clafychiad
Sideways, ad. ar ei ochr
Side-wind, s. ystlys-wynt
Sidle, v. ystlys-fyned
Siege, s. gwarchae
Sieve, s. gogr
Sift, v. gogrynu, nithio, olrhai
Sifter, s. gogrynwr, nithiwr
Sigh, s. ochenaid
Sighing, s. ocheneidiad, ochain part. dan ocheneidio
Sight, s. golwg, yr olwg; drycl
Sightless, a. diolwg, tywyll, dal
Sightly, a. golygus
Sigil, s. sel; math o swyn
Sign, sub. arwydd; amnaid; v arwyddo, nodi; tanysgrifio
Signal, s. arwydd; a. hynod
Signalize, v. enwogi, hynodi
Signally, ad. yn hynod
Signature, s. arwydd-nod, enw, dangoseg, arwydd-lythyren
Signet, s. sel-fodrwy, modrwy
Significance, significancy, sub. arwyddoldeb; pwys
Significant, a. arwyddol; pwysig; cynwysfawr
Signification, s. ystyr
Signify, v. arwyddo
Signifying, part. gan arwyddo, yn arwyddo
Signing, s. nodiad, arwyddiad
Sign-post, s. arwydd-drawst
Silence, s. gosteg, dystawrwydd
Silenced, a. dystawedig
Silent, a. dystaw, tawel
Silently, ad. yn ddystaw
Silicious, a. gwalltog
Siliquose, a. plisgog
Silk, s. sidan, sirig, siriel; pall
Silken, a. o sidan, sidanog
Silk-mercer, s. masnachwr sidan
Silk-worm, s. pry'r sidan
Silky, a. sidanaidd
Sill, s. trothwy
Sillabub, s. ewyn-gaul
Sillily, ad .yn ffol, yn ddigrif

Silliness, s. ffoledd, deldra
Silly, a. ffol, delffaidd
Silt, s. pridd lleidiog
Silvan, a. coediog
Silver, s. arian
Silversmith, s. gof arian
Silvery, a. arianaidd
Similar, s. tebyg, cyffelyb
Similarity, s. cyffelybrwydd
Simile, s. cymhariaeth
Similitude, s. cyffelybiaeth
Simitar, s. cleddyf byr
Simmer, v. araf ferwi
Simnel, s. teisen lysieuog
Simoniac, simonist, s. cysegr-brynydd, neu werthydd
Simony, s. cysegr-fasnach
Simper, v. cilwenu
Simple, s. llysleuyn; gwrengyn; a. syml; sengl; anghall, gwirion; v. llysieua
Simpleness, s symlrwydd
Simpler, simplist, s. llysieuwr
Simples, s. llysiau; y syml-wst
Simpleton, s. drel, symlyn
Simplicity, sub. symlder, symlrwydd, gwiriondeb
Simplify, v. a. cyfarddunaw
Simply, ad. yn syml, yn unig
Simulate, v. ffugio, ffuantu
Simulation, s. ffugiad
Sin, s. pechod; v. pechu
Sin-money, s. pech-arian
Sin-offering, s. pech-offrwm
Since, ad. gan, yn gymaint; er
Sincere, a. cywir, didwyll
Sincerely, ad. yn gywir
Sincerity, s. cywirdeb
Sindon, s. llian main, sindal
Sine, s. llinell fesurol
Sinecure, s. swydd-segur
Sinecurist, s. segur-swyddwr
Sinew, s. gewyn, gaw
Sinewed, a. gewynog
Sinful, a. pechadurus
Sinfully, ad. yn bechadurus
Sinfulness, s. pechadurusrwydd
Sing, v. canu, pêrleisio
Singe, v. deifio, golosgi
Singed, a. deifiedig
Singer, s. canor, caniedydd
Singing, s. deiliad; caniad
Single, a. syml, unigol, sengl
Singleness, s. sengledd, symledd, unigolrwydd
Singly, ad. yn sengl, yn syml
Singular, a. unig, neillduol
Singularity, s. neillduolrwydd
Singularly, ad. yn hynod
Sinister, a. aswy, chwithig; anuniawn, cam
Sink, s. carthfa; golchfa; ceuffos; gendy; v. soddi, disgyn, treio, sugno, tòri, crymu
Sink-hole, s. ysgarth-dwil
Sinking, s. suddiad; part. yr soddi; a. suddol
Sinless, a. dibechod
Sinlessness, s. dibechodrwydd
Sinner, s. pechadur
Sinoper, s. rhuddell, coch-nod
Sinuate, v. dolenu
Sinuation, s. doleniad
Sinuous, a. ystumiog
Sinus, s. morgilfach
Sip, s. llymaid; v. llymeitian
Siphon, s. arlloes-bib, sugh-bib
Sipper, s. llymeitiwr
Sippet, s. tameidyn
Sipping, sub. llymeitian; part. yn llymeitian
Sir, s. syr, meistr
Sire, s. tad; tad anifail
Siren, s. y for forwyn, hudoles
Siren-song, s. hudol-gerdd
Siriasis, s. fflameg yr ymenydd
Sirius, s. seren y ci
Sirloin, s. lwyn eidion
Sirname, s. cyfenw
Sirocco, s. de-ddwyreinwynt
Sirrah, s. syre
Sirup, s. cyflaith, surfedd
Sirupy, a. cyfleithaidd
Sister, s. chwaer; pl. chwiorydd
Sisterhood, s. chwaeroliaeth
Sisterly, a. chwaerol

Sit, v. seddu, eistedd
Site, s. sefyllfa, safle
Sith, ad. yn gymaint, gan hyny
Sithe, scythe, s. pladur
Sitting, s. eisteddiad
Situate, a. yn sefyll; v. sefydlu
Situated, part. yn sefyll
Situation, s. sefyllfa; ansawdd, safiad, lle; chflead; cyflwr
Six, a. chwech
Sixthly, ad. yn chwechfed
Size, s. maint; ysgrawling
Sizeable, a. gweddol o faint
Sizer, s. gradd o ysgolheigion
Sizy, a glydiog
Skain, s. cengl, cleisyn
Skate, s. mor-gath; llithr-ffollach; v. llithr-redeg
Skean, s. ysgien, bidawg
Skegger, s. math o eog, gaflaw
Skeleton, s. ysgrwd, ysgerbwd, esgyrnlwm
Skellet, s. calloryn, peiryn
Skep, s. cawell, cawnen
Skeptic, sceptical, a. amheugar
Skepticism, s. amheugarwch
Sketch, s. cynllun, braslun; v. a. braslunio, cynddelwi
Skewer, s. gwaell, pwnaid; v. gwaellu, pwyniaw
Skid, v. atal olwyn
Skiff, s. ceubal, cwch
Skilful, a. medrus, cywrain
Skilfully, ad. yn gywrain
Skill, s. medr; gwybodaeth
Skilled, a. cyfarwydd
Skim, sub. ewyn; v. dihufenu; ysgafn hedeg neu fyned dros
Skimmer, s. diewynor
Skimming, s. diewyniad
Skimming-dish, s. ysleten
Skin, s. croen; v. croeni; blingo
Skinflint, s. caled-fargenwr
Skink, s. diod; v. trullio, heilio
Skinner, s. crwynwr
Skinny, a. croenllydd cul, truan
Skip, s. naid, llam; v. a. neidio
Skipper, s. llamydd, neidiwr; math o long; y cornbig lleiaf
Skipping, a. llamsachus
Skirmish, s. ysgarmes
Skirmishing, s. ysgarmesiad
Skirt, s. cwr, godre, ymyl gwisg
Skit, s. penchwibandod; sen
Skittish, a. nwyfus, gwamal
Skittles, s. ceilys
Skounce, s. dirwy
Skreen, s. cysgod; v. cysgodi
Skulk, v. ymguddio, llechu
Skull, s. penglog, siol
Skullcap, s. paeled
Sky, s. awyr, wybr, ffurfafen, nwyfre
Sky-colour, s. lliw'r awyr
Skylark, s. uchedydd, ehedydd
Skylight, s. ffenestr cronglwyd
Skyrocket, s. awyr-dân-belen
Slab, s. cyn-astell; mynor-lech; llaca; a. llaceilyd
Slabber, v. diwyno; glafoerio
Slabbered, part. glafoeriedig
Slabberer, s. ynfyd-ddyn, drelyn
Slabbering, s. glafoeriad; adj. glafoeriog
Slabby, a. gwlyb, bawlyd
Slack, a. llaes, llac, rhydd
Slack, slacken, v. llaesu, llacio,
Slackly, ad. yn llaes, yn llac
Slackness, s. yslaerwydd
Slag, s. llosg-sorod, sinidr
Slaie, s. peithen gwehydd
Slain, par. lladdedig, wedi' ladd
Slake, v. a. llaesu; toddi calch; tôri syched, neu newyn
Slaked, a. toddedig
Slam, s. lladdfa; v. lladd; taro drws y' nghyd
Slander, s. enllib; v. enllibio
Slanderer, s. athrodwr
Slandering, s. athrodiad
Slanderous, a. enllibus
Slanderously, ad. yn enllibus
Slang, s. llain
Slank, s. cul, teneu, truan
Slant, slanting, a. ar ogwydd
Slap, s. palfod; v. palfodio

Slap-dash, adv. ar unwaith, yn gyflym, yn ddisymwth
Slap-dasher, s. brith-liwydd
Slash, s. archoll, toriad; fflangelliad; v. archoll, fflangellu
Slate, s. llech, llechen
Slated, a. llechedig, peithynedig
Slater, s. llechwr, peithynwr
Slatter, v. diofalu
Slattern, s. bronten, soga, hafnai
Slaughter, s. lladdfa; v. lladd
Slaughter-house, s. cigydd-dy
Slave, s. caethwas; fem. caethes
Slaver, s. poeri; v. glafoerio
Slavery, s. caethiwed
Slave-trade, s. caethfasnach
Slavish, a. caethwasaidd
Slavishly, ad. yn gaethwasaidd
Slavishness, s. gwaseidd-dra
Slay, s. peithyn; v. lladd
Sleazy, a. masw, disylwedd
Sled, s. càr, càrllusg
Sledge, s. càr; gordd
Sleek, a. llyfn; v. caboli
Sleek-stone, s. cabol-faen
Sleep, s. cwsg, hun; v. cysgu
Sleeper, s. cysgadur
Sleepiness, s. cysgadrwydd
Sleepless, a. digwsg, effro
Sleepy, a. cysglyd, swrth
Sleet, s. eirwlaw, odwlaw
Sleety, a. eirwlawog
Sleeve, s. llawes; pl. llewys
Sleeveless, a. dilewys
Sleight, s. cyflymdro, hudwaith
Sleight-of-hand, s. llaw-ysgafnder, llaw-hudwaith
Slender, adj. main, teneu, cul; bychan; disylwedd; gwan
Slenderly, ad. yn, fain, &c.
Slenderness, s. meinder
Slice, sub. tafell, clem, rhasgl; v. tafellu, clemio, rhasglio
Slide, sub. llithrfa, ysglent; v. ymlithro, ysglentiaw
Slider, s. trostr; ymlithiwr
Sliding-rule, s. llithr-lath
Slight, s. bychander, dirmyg; a teneu, eiddil; v. diystyru
Slighted, part. diystyredig
Slighting, part. yn bychanu
Slightly, adv. yn ysgafn, yn arwynebol, yn dwyllodrus
Slightness, s. eiddilwch, meinder, ysgafnder; a. main, eiddil
Slim, a. teneu, main
Slime, s. llaid; llws, llinos
Slimy, a. lleidiog; llyslyd
Sliness, s. cyfrwysder, ffalsder
Sling, s. tafl, ffon dafl; arwestwr, dolenrwyn; dyrwyn-raff; v. taflu; arwestru, dirwyn
Slinger, s. taflydd, tafledydd
Slink, s. llo erthyl, marw-lo
Slip, sub. ysbrigyn; llithriad; tramgwydd; v. a. llithro, diane
Slipboard, s. llithr-fwrdd
Slipknot, s. cwlwm rhedeg
Slipped, part. wedi llithro
Slipper, s. llopan, yslopan
Slipperiness, s. llithrigrwydd
Slippery, a. llith rig; anhyddal
Slipslop, s. diod ddrygflas
Slit, s. hollt, agen; v. hollti
Slive, sliver, s. tafell; v. tafellu
Sloats, s. gwaelod ddarnau cert
Slobber, v. diwyno
Slock, v. llaesu; toddi calch
Slocker, slockster, s. yslocai, un a hudo ymaith was un arall
Sloe, s. eirinen ddu fach
Sloop, s. llong un hwylbren
Slop, s. gwael wlybwr; llodrau; v. tasgu dwfr, caboli
Slope, s. lleddf; v. lleddfu
Slopeness, s. llechwedd, oleddf
Sloping, s. llechweddiad
Sloppy, a. llaceilyd, soeglyd
Slop-seller, sub. siopwr dillad morwyr
Sloth, s. diogi, syrthni
Slothful, a. diog, musgrell
Slothfully, ad. yn fusgrell
Slothfulness, s. musgrellni
Slouch, sub. llipryn, llipa; v. llipân

Slouching, a. lliprynaidd
Slough, s. cors; lloches baedd gwyllt; hen groen neidr
Sloughy, a. corslyd, ffoslyd
Sloven, s. bawai, sogai; yslyflyn, dyn annhaclus
Slovenliness, s. annhaclusrwydd
Slovenly, a. bawlyd, anghryno
Slow, s. pwyllig, hwyrdrwm
Slowly, ad. yn bwyllig
Slowness, s. hwyrfrydigrwydd
Slow-worm, s. dall-neidr
Slubber, v. a. diflas-weithio; dwbio; gorchuddio yn lled-chwith
Slubbering, s. mocheidd-dra
Sludge, s. llaca; plwca
Slug, s. malwoden; diogyn; rhwystr; darn o fettel a saethir o ddryll; v. segura
Sluggard, s. segurddyn, diogyn
Sluggish, a. swrth, diog
Sluggishly, ad. yn fusgrell
Sluggishness, sub. musgrellni, diogi
Sluice, s. dyfrddor, dyfrargae
Slumber, s. dargwsg, ysgafn-gwsg; v. hepian
Slumbery, a. cysglyd
Slung, part. tafledig; crogedig
Slur, sub. brych, anaf; anair, athrod; llithren, llithrnod
Slut, s. bronten, budren, soga
Sluttish, a. brwnt, budr
Sluttishly, ad. yn frwnt, yn fudr
Sluttishness, s. baweiddrwydd
Sly, a. cyfrwys, ffals
Slyness, s. cyfrwysder, ffalsder
Smack, s. blas; tamaid; clec fflangell; cusan trystiog, pocyn; v. a. blasu, chwaethu; profi; cusanu; trystio, clecian
Smacker, s. poeryn, croch-gusan; ergyd adref; chwaethwr
Small, a. bach, bychan; mân
Small-pox, s. y frech wen
Smallness, s. bychander
Smalt, s. glaslwch
Smaragdine, a. emeraldaidd
Smart, s. dolur; gloes; gwayw gwyn; pert; bywiog; llym ffraeth; v. gwynio
Smarting, s. gwynegiad; part. yn gwynio
Smartly, ad. yn fywiog, yn llym
Smartness, sub. bywiogrwydd; llymder, toster
Smatch, s. blas, adflas
Smatter, s goddysg, lled-ddysg; v. a. coeg-ddysgu
Smatterer, s. crach-ysgolhaig
Smattering, s. bas-ddysg
Smear, v. llychwino, diwyno
Smeared, part. llychwinedig
Smell, s. arogl, gwynt, sawr; v. arogli, sawrio
Smell-feast, s. bolerwr
Smelling, s. arogliad
Smelt, s. brwyniad, math o fôr-frithyll; v. toddi mwn
Smerk, smirk, v. cilwenu
Smerking, s. cilweniad; part. ar wen
Smicket, s. crys benyw
Smile, s. gwen; v. gwenu
Smiling, part. ar wen
Smirker, s. cilwenwr
Smite, v. taro, archolli, lladd
Smith, s. gof, gofant
Smithory, smithy, s. gefail gof
Smock, s. crys benyw, hefys
Smock-faced, a. wyneb lyfn
Smoke, s. mwg; v. mygu
Smoker, s. ysmygwr
Smoky, a. myglyd
Smooth, a. llyfn, gwastad, cabol, llathr; v. a. llyfnhau, gwastadhau, caboli; gwenleithio
Smoothly, ad yn esmwyth
Smoothness, s. llyfnder, &c.
Smooth-tongued, a. tafod-lyfn
Smother, v. mygu, llethu, tagu
Smothered, part. mygedig
Smouldering, part. yn llosgi'n fud (heb simnai)
Smug, a. pert, pinc, hoyw

Smuggle, v. a. trosglwyddo neu redeg pethau annholledig
Smuggler, s. rhednwyddwr
Smuggling, s. rhednwyddyddiaeth
Smugly, ad. yn binc, yn bert
Smugness, s. tlysni, pertrwydd
Smut, s. parddu; rhŵd, gwenith du; v. pardduo
Smutch, v. pardduo
Smuttiness, s. serthedd
Smutty, a. pardduaidd
Snack, s. cyfran, rhandwy; rhagbryd; v. a. haneru
Snacket, s. cliced, cloigyn
Snaffle, s. genfa; v. ffrwyno
Snaffled, a. genfaog
Snag s. ysgythr-ddant
Snail, s. malwen malwoden
Snake, s. neidr, nadr
Snake-root, s. gwraidd meddygol
Snaky, a. neidraidd; nadreddog
Snap, s. byrdoriad; tamaid; cipgno; clec, crinell; v. a. cnoi, cip-ddala; clecian; senu
Snap-dragon, s. math o chwareu; trwyn y llo
Snappish, a. brathlyd, hygno, pigog, sarug, sengar
Snappishly, ad. yn frathlyd, &c.
Snappishness, s. brathlydrwydd, cipgarwch, sengarwch
Snapsack, s. ysgrepan milwr
Snare, s. magl, teiml, croglath, bachell, rhwyd; v. maglu
Snarl, v. chwyrnu, gremiaw
Snarling, a. chwyrnllyd
Snatch, s. cip; v. cipio, ysgipio
Sneak, v. llechu, ymlusgo
Sneaker, s. cynglwr, godechwr
Sneaking, part. bawaidd
Sneakingly, ad. dan blygu pen, yn llechwrus, yn fawaidd
Sneap, v. ceryddu
Sneed, s. coes pladur
Sneer, s. gwatwar-wên; v. a. gwatwar-wenu
Sneerer, s. gwawd-wenwr
Sneezing, s. gwawd-weniaith; a. cellweirus; part. yn watwarllyd
Sneeze, s. trew, entrewiad, tis; v. trewi, trewian, tisio
Sneezer, s. trewydd, tisiedydd
Sneezing, s. tisiad, tisian
Snick-and-Snee, s. cyllell-ornest; ymladdfa a chyllell
Snicker, v. chwerthin dan llaw
Sniskersnee, s. cyllell hir
Sniff, sniffle, v. ffroeni
Sniggle, v. llyswena
Snip, s. gwellaif-drwch, agen; cinyn; v. hollti, egoryd
Snipe, s. giach, ysnid; delbren
Snipper, s. gwelleifiwr
Snippers, s. gwellaif
Snipper-snapper, sub. cymhen siaradwr
Snip-snap, s. cymhen-ddadl
Snivel, s. llysnafedd y trwyn; v. a. llefain a'r trwyn yn llifo
Sniveller, s. un a lefo a'i drwyn yn llifo i'w enau
Snivelling, part. a'i ffroenau yn rhedeg, dan lefain
Snore, s. chwyrniad; v. chwyrnu
Snorer, s. chwyrnwr
Snoring, s. chwyrniad; part. dan chwyrnu
Snort, v. ffroeni, rhwncio
Snorting, part. yn ffroeni, dan ffroeni, yn hyffroen
Snot, s. llysnafedd y trwyn
Snotty, a. llysnafeddog, crestog
Snout, s. trwyn, swch, duryn
Snow, sub. eira, eiry; od; v. bwrw eira, odi
Snow-ball, s. pelen eira
Snow-drop, s. math o lysieuyn
Snowy, s. eiryog; purwyn
Snub, s. cerydd; v. ceryddu
Snuff, s. trewlwch, pen canwyll; v. ffroeni; tori pen canwyll
Snuffers, s. toriadur pen canwyll, gleiniadur, salltring
Snuffle, v. dweyd trwy'r trwyn

Snuffle, s. dyn trwyn gauad
Snug, a. cel; cryno; clyd
Snuggle, v. ymgynhesu
Snush, s. trwynlwch, trewlwch
So, s. math o drwpa mawr; a. felly, yn gyffelyb; conj. cyn, mor; fel, megys
Soak, v. mwydo; rhoi yn wlych; llyncu; rhedeg
Soaking, s. mwydiad; gwlychfa
Soap, s. sebon; v. seboni
Soap-boiler, s. gweithydd sebon
Soap-wort, s. sebonllys
Soar, v. uch-hedeg, esgyn
Soaring, s. uch-hed, uch-hediad
Sob, s. ig, crych-uchenaid; v. igian, crych-uchenaidio
Sober, a. sobr, pwyllig
Soberly, ad. yn sobr, yn ei bwyll
Soberness, sobriety, s. sobrwydd
Soccage, s. hawl swch a chwlltwr
Sociability, sociableness, sub. cyfeillgarwch, cydymeithgarwch; cymdeithasgarwch
Sociable, a. cymdeithasgar
Sociably, ad. yn gyfeillgar
Social, a. cymdeithasol
Society, s. cymdeithas
Socinianism, sub. Sosiniaeth, athrawiaeth Sosinus
Socinians, a. Sosiniaid
Sock, s. socas; pl. socasau
Socket, s. twll, said-dwll, crau
Sod, s. tywarchen, mawnen
Sodality, s. cyfeillach
Sodden, part. berwedig
Soddy, a. tywarchlyd, mawnog
Soder, soldier, s. sawdur, iasfettel; asiad; v. sawduriaw
Sodomite, s. gwryw-gydiwr
Sodomitical, a. gwryw-gydiol
Sodomy, s. gwryw-gydiad
Sofa, s. esmwyth-fainc, glwth
Soft, a. meddal, tyner; gwagsaw; mwyn, tirion; araf
Soften, v. a. meddalhau; arafu
Softly, adv. yn araf, yn dirion, yn esmwyth, yn ddystaw
Softness, s. meddalder, tynerwch, tirionded
Soho, interj. holo, gwrandewch, clywch
Soil, s. pridd; daear, tir, llawr; baw; tail; v. a. diwyno
Sojourn, v. ymdeithio
Sojourner, s. alltud, ymdeithydd
Sojourning, sub. ymdeithiad; preswyliad
Soke, v. mwydo; rhoi yn wlych; llyncu, rhedeg
Solace, s. cysur, dyddanwch; v. cysuro, dyddanu, lloddi
Soland-geese, s. gywrain
Solar, a. heulog
Solar, solary, s. heulfa goruwch ystafell yn wyneb yr haul
Soldan, s. tywysog Mahometaidd
Solder, sub. sawdur, ias-fetel; asiad; v. sawduriaw
Soldier, s. milwr, sawdwr
Soldier-like, a. milwraidd
Sole, s. gwadn; gosail; lleden, tafod yr ych; adj. unig; v. a gwadnu
Solecism, s. gwrthun-iaith
Soled, part. gwadnedig
Solely, ad. yn unig, yn hollol
Solemn, a. arbenig, rhwysgfawr, ofnadwy, parchus
Solemnity, s. arbenigrwydd, &c.
Solemnization, sub. cadwad; gweinyddiad, gweinidogaeth
Solemnize, v. cadw; cyflawni
Solemnly, adv. mewn modd arbenig; o ddifrif; ar gyhoedd
Solicit, v. a. erchi; erfyn; gwahodd; dirprwyo
Solicitation, s. deisyfiad, erfyniad; anogaeth; gwahoddiad
Solicitor, s. erfyniwr; dadleuwr, dirprwywr, erlyniedydd
Solicitous, a. gofalus, pryderus
Solicitude, s. cur, gofal, pryder
Solid, sub. caled-gorph, cyfangorph; sylwedd; adj. caled, dwys, sylweddol, syth, ffurf

Solidity, solidness, sub. caledrwydd, dwysder, sylwedd
Soliloquy, s. hunan ymddyddan
Solitaire, s. meudwy; gwddfaddurn
Solitary, a. unig, didrain, didryf
Solitude, s. neilltuedd
Solo, s. cân unllais
Solstice, s. yr heulorsaf
Solstitial, a. haul-orsafol
Soluble, a. toddadwy, dattodol
Solubility, solubleness, s. hydoddedd
Solution, dattodiad
Solutive, a. rhyddhaol
Solvable, a. egluradwy, taladwy
Solve, v. agor, egor, dehongli
Solvency, s. abledd i dalu dyled
Solvent, a. toddiadol, chwaladwy; abl i dalu
Somatology, s. defnydd-ddysg
Some, sub. rhyw rai; a. rhai, rhyw, rhyw-faint, ychydig, peth; ad. yn nghylch
Somebody, s. rhywun
Somehow, ad. yn rhywfodd
Somersetshire, s. Gwlad yr Haf
Something, s. rhywbeth
Sometimes, ad. weithiau
Somewhat, s. rhywbeth
Somewhere, ad. yn rhywle
Somnambulism, s. cwsg-rodiad
Somniferous, somnific, a hûnddwyn, cwsg-bair, cwsg-ddygol
Somnifugous, a. cwsg-rwystrol
Somnolence, s. cysgadrwydd
Son, s. mab; ab, ap
Son-in-law, s. mab yn nghyfraith, daw, dawf
Sona, s. sain, ton
Sonable, a. seiniadwy
Sonata, s. cyfansoddiad peroriaethol i offer cerdd yn unig
Song, s. cân, caun; cathl, cerdd
Songster, s. caniadydd, cantor
Songstress, s. cantores
Soniferous, sonorific, adj. seiniadol, seinbarol
Sonnet, s. canig; awdl
Sonorous, a. seinfawr, soniarus
Soon, ad. yn ebrwydd, yn fuan
Sooner, ad. yn gynt, yn fuanach
Soonest, ad. yn gyntaf
Soot, s. huddygl; parddu
Sooth, sub. gwir, gwiredd: v. boddhau, dyddanu; llonyddu
Soother, s. boddhawr, dyddanwr
Soothing, part. yn rhoi boddlonrwydd
Soothsay, v. dweyd dewiniaeth
Soothsayer, s. dewin
Soothsaying, s. dewiniad
Sooty, a. huddyglydd, pardduog
Sop, s. gwlych-damaid, mica
Soph, s. tanurddyn; un wedi treulio 2 flynedd mewn athrofa
Sophi, s. ymerawdwr Persia
Sophism, s. twyll-ddadl
Sophist, sophister, sub. twylldddadleuwr
Sophistical, a. twyllodus
Sophistication, s. llygriad
Sophistry, sub. siom ddadlyddiaeth, gwallresymiad, twylleb
Soporiferous, soporific, a. cwsgbar, hun-ddwyn, hun-ddygol
Sopy, a. sebonog, sebonllyd
Sorcerer, s. swynwr, hudolwr
Sorceress, s. swynwraig
Sorcery, s. swyngyfaredd
Sord, s. tywoden; glasdir
Sordid, a. bawlyd, brwnt, salw
Sordidly, ad. yn fawaidd
Sordidness, s. brynti, diffeithder; gwaelder; cybydd-dra
Sore, s. anafod, archoll, briw; clwyf; adj. tost, blin, dolurus, poenus; ad. yn dost
Sorel, s. carw. teirblwydd
Sorely, ad. yn dost
Soreness, s. tostrwydd
Sorrel, s. suran; dringol
Sorrow, s. aeth, blinder, gofid, tristwch; v. gofidio
Sorrowful, a. trist, athrist
Sorrowfully, ad. yn drist

Sorrowing, part. gan ofidio, yn ofidus
Sorry, adj. blin, drwg gan; brwnt, diffaith, bawaidd
Sort, s. modd, math, sut; gradd; par; v. cymmathu
Sortes, s. coelbrenau
Sortable, a. cymmathadwy
Sorting, s. cymmathiad
Sortment, s. cymmathiad
Soss, v. ymollwng i gadair
Sot, s. meddwyn, brwysgwr
Sottish, a. penfeddw, syfrdan
Sottishly, ad. yn benfeddw
Sottishness, s. penfeddwdod
Sough, s. ffos gudd
Sought, part. ceisiedig: v. a. ceisiais, ceisiodd, &c.
Soul, s. enaid, ysbryd; meddwl; dyn; a. ysbrydol
Soulless, a. difywyd, digalon
Sound, s. bas-fôr; sain; trwst; a. cadarn; sicr; cyfan, dianaf; trwm; iawn-ffyddiog; v. seinio, lleisio; plymio
Sound-board, s. seinfwrdd
Sounding, s. seiniad; dyfnder
Sounding-line, s. llinyn plymio
Soundly, ad. yn dda ac yn ddiwall, yn galed, hyd adref
Soundness, sub. iachusrwydd; dianafwch; cyfander; cadernid
Soup, s. potes, llymeidfwyd
Sour, a. sur, chwibl, egr; sarug; v. a. suro
Source, s. ffynonell; dechreu
Soured, part. wedi suro
Sourish, a. surllyd
Sourly, ad. yn sur
Sourness, s. surni; sarugrwydd
Sous, s. ceiniog Ffrengig
Souse, s. sur-gyffaith; cyffeithgig; v. cyffeithio; trochi; chwyrn-daro fel aderyn; adv. yn chwyrn-ddisymwyth
South, s. dëau, deheu; a. deheuol; ad. tua'r deheu
Southerly, southern, a. deheuig
Southernwood, s. Brytwn, llysiau'r cyrff, siwdr, heuwr
Southing, s. tyniad tua'r deheu
Southward, a. tua'r deheu
Sovereign, s. penadur, pen-arglwydd, unben; a. goruchaf· arbenig; difeth
Sovereignly, ad. yn arbenig
Sovereignty, s. penaduriaeth
Sow, sub. hwch, llwdn hwch; cuner; v. hau; gwnio
Sowbread, sub. afal y ddaear, bara'r hwch
Sower, s. hauwr, heuwr
Sowing, s. heuad
Sowish, a. hychaidd
Sown, part. heuedig; gwniedig
Space, sub. cyfwng, yspaid, encyd, enyd; lle; gofod
Spacious, a. eang, helaeth
Spaciously, ad. yn ëang
Spaciousness, s. eangder
Spade, s. pal, rhaw, rhaw-bal; hydd teir-blwydd
Spain, s. Yspaen, yr Hispaen
Spake, v. llefarais, &c.
Span, s. rhychwant; v. rhychwannu; pyddais.—*Span new*, tanlli, newydd tanlli
Spangle, s. boglyn caboledig o ryw fettel; v. serenu
Spangled, part. serenog
Spaniel, s. adar-gi
Spanish, a. Yspaenaidd
Spanish-flies, s. cylion paradwys
Spanker, s. dernyn bathedig
Spanking, a. mawr, glandeg
Spar, s. gwydr-faen; ysgolpen
Sparables, s. hoelion diglopa
Spare, a. cynil; cul; dros ben; v. tolio, arbed, atal, goddef, gweddillio, hebgor
Spare-rib, sub. asen y fran, eisglwyd mochyn
Spargefaction, s. taenelliad
Sparing, s. arbed; a. arbedus· part. gan arbed

Sparingly, ad. yn brin, yn gynil
Sparingness, s. cynildeb
Spark, s. gwreichionen; coegyn; cariad-fab
Sparkish, a. hoyw; coegaidd
Sparkle, s. gwreichionyn; v. gwreichioni
Sparkling, s. gwreichioniad; a. gwreichionllyd
Sparrow, s. golfan, aderyn y to
Sparrow-hawk, sub. curyll y gwynt, cudyll coch, ceinllygoch
Spasm, s. cwlwm gwythi
Spasmatic, spasmodic, a. gwrwstaidd, gwrwstlyd
Spat, sub. grawn llymeirch; v. poerais, &c.
Spatter, v. diblo, diwyno; enllibio
Spatterdashes, s. socasau
Spattered, part. dibledig
Spatula, spattle, sub. yspodol, crofell, cyllell blastr
Spavin, s. clefyd y llyncoes
Spaw, spa, sub. dwfr ffynon meddygol, ffynon o ddwfr mwnawl
Spawl, s. poer; v. poeri
Spawn, sub. sil, grawn pysg, cronell; chwydredd llyffaint; v. siliaw, bwrw grawn; deillio
Spawner, sub. pysgodyn fenyw, cronell-bysg; hwyfell, maran
Spawning, s. siliad, cronelliad
Spay, sub. dyspaddu creadur benyw
Speak, v. a. llefaru, dywedyd
Speaker, s. llefarwr
Speaking, s. llefariad, dywediad
Spear, sub. bêr, gwayw-ffon; tryfer; v. brathu, tryferu
Spearmint, s. mintys Mair
Spearwort, s. llysiau'r gwayw
Special, a. neillduol; dewisol
Speciality, specialty, s. neillduoldeb; dewisoldeb
Specie, s. arian bathol
Species, s. rhywogaeth, bath
Specific, s. priod feddyginiaeth
Specific, specifical, a. rhywogaethol; hysbysol; parthol; neillduol; gwahanredol
Specifically, ad. wrth y rhywiau; yn benodol
Specification, s. hysbysoliad; rhywiogaethiad; penodiad
Specify, v. neillduoli; penodoli; nodi wrth ei ryw
Specimen, s. prawf; siampl; dangoseg, cynllun, cynnyg
Specious, a. golygus, wyneb-deg
Speck, s. magl, man; v. mànu, brychu
Speckle, s. manyn, brychyn
Speckled, adj. brith, brych, manog
Spectacle, s. drych, golwg
Spectacles, s. golwg--wydrau
Spectator, s. edrychwr
Spectre, s. drychiolaeth, ysbryd
Specular, s. golwg-gynorthwyol
Speculate, v. a. trefnu yn y meddwl; rhagfasnachu
Speculation, sub. trefniad yn y meddwl; rhagfasnachiad
Speculative, a. myfyrgar; myfyriedigol, meddyliadaidd
Speculator, s. myfyriwr, meddyliedydd; rhagfasnachydd
Speculum, s. drych
Sped, part. wedi ei daclu
Speech, s. ymadrodd, parabl; lleferydd, llafar, tafodiaith
Speechify, v. brygawthan
Speed, s. brys; llwyddiant; v. brysio; llwyddo
Speedily, ad. yn fuan, ar frys
Speediness, s. buander, brys
Speedwell, s. gwrnerth, llysiau Llywelyn, rhwydd-lwyn
Speedy, a. buan, cyflym
Spell, s. swyn, swyngyfaredd; sillafu, sillio, llythyrenu
Speller, s. sillafwr, silliedydd
Spelling, s. silliad, sillafiad

Spelter, s. math o rith fettel
Spend, v. treulio, gwario
Spender, s. treuliwr, afradlonwr
Spending, s. treuliad, gwastraff
Spendthrift, s. gwastraffwr
Spent, part. treuliedig, wedi darfod; v. treuliais, &c.
Sperm, s. had, rhith, anian
Spermaceti, s. anian morfarch, brasder o forfeirch
Spermatic, spermatical, a. hadol
Spermologist, s. had-gasglwr
Spew, v. cyfogi, chwydw, gloesi
Sphere, s. pêl, cronen; cylchdro; swydd-gylch; cyrhaedd
Spheric, spherical, a. crwn
Spheroid, s. corph hirgrwn
Spheroidical, a. hirgrynaidd
Spherule, s. pellen, cronell
Sphinx, s. anghenfil dychymymgol yr Aifft
Spice, s. llysiau siopau, perlysiau
Spiced, part, llysieuedig
Spicery, s. trysorfa perlysiau
Spick *and span new*, adj. hollol newydd, newydd tanlli
Spicknel, s. ffenigl Elen
Spicy, a. perlysicuog
Spider, s. còr, copyn, pryf copyn
Spight, s. cenfigen, malais, mic
Spigot, s. dwsel
Spike, s. twysen; cethr, cethren; gwialen flaenllym
Spiked, a. blaenllym, pigfain
Spikenard, s. yspienard
Spill, s. dryllyn; v. colli
Spin, v. nyddu, ystyn, estyn
Spinage, s. y bigawglys
Spinal, a. a berthyn i asgwrn y cefn
Spinal-marrow, s. madruddyn y cefn, mwydyn y cefn
Spindle, s. gwerthyd; nyddiedydd; canol-bost grisiau
Spindle-tree, s. piswydden
Spine, s. asgwrn y cefn, yspin
Spinnet, s. organ-dannau
Spiniferous, a. dreiniog
Spinner, s. math o goryn hirgoes hynod; nyddie lydd
Spinning, s. nyddiad
Spinning-wheel, s. rhod nyddu
Spinous, spiny, a. dreiniog
Spinster, s. nyddwraig; merch weddw, benyw anweddog
Spiny, a. dyrys, dreiniog
Spiracle, s. gwynt-dwll
Spiral, sub. corff blaenfain cogyrnog; a. dynyddawl
Spire, s. nydd-dro; cyfan-gorff blaenfain; tŵr blaenfain; un peth a dyfo'n benfain
Spirit, s. ysbryd; tymher
Spirited, a. ysbrydlawn, bywiog
Spiritless, a. digalon, diysbryd
Spirits, s. ysbrydoedd; gwirod
Spiritual, a. ysbrydol
Spirituality, s. ysbrydolrwydd
Spiritualize, v. ysbrydoli
Spiritualizer, s. ysbrydolwr
Spiritually, ad. yn ysbrydol
Spirituous, a. ysbrydog
Spirt, s. ysbonc; v. ysboncio; saethu, pistyllio, chwistrellu
Spiry, a. penfain, beräaidd
Spissitude, s. tewedd, tewychedd
Spit, s. bêr; dyfnder palaid; v. palu; poeri; rhoi cig ar ber
Spital, s. ysbytty
Spitchcock, v. briw-drin llyswen
Spite, s. cenfigen, malais, mic
Spiteful, a. cenfigenus, digofus
Spitefulness, s. adwythigrwydd
Spitefully, ad. yn genfigenus
Spitter, s. poerwr
Spittle, s. poer, poeryn
Splanchnology, s. coludd-draeth
Splash, s. taenell, tasgiad; v. taenellu, tasgu llaca
Splashy, a. llacellyd
Splay, v. lleddfu, geleddfu; llaesu palfais ceffyl
Splay-footed, a. troedgam, llerog
Spleen, s. y ddueg, y ddueg wst, y dulyn, y pruddglwyf; drwgdymher

Spleenwort, s. rhedyn y fagwyr
Splendent, a. ysplenydd
Splendid, a. ymddangosiadus, dysgywen, ardderchog
Splendour, s. dysgleirdeb
Splenetic, a. claf o'r ddueg
Splice, s. cymhlethiad penau rhaff; v. cymhlethu
Splint, splinter, s. dellten; v. ysgyrioni, fflochenu
Split, v. hollti, delltu
Splitter, s. holltwr, delltenwr
Splitting, part. yn hollti
Splutter, s. godwrdd, terfysg
Spoil, a. anrhaith; anrheithio, difrodi; anafu
Spoiled, part. anrheithiedig
Spoiler, s. difrodw
Spoke s. braich; ysbag; carfan; v. a. dywedais dywedodd
Spoken, part. dywededig
Spokesman, s. areithiwr
Spondee, s. dau sill hirion
Sponge, s. yspwng, gwlan y mor
Sponger, s. boleiwr
Sponginess, s. yspyngogrwydd
Spongy, spongious, a. yspyngaidd, yspyngog; chwisoglog, meddal, masw, gwagsaw
Sponsal, a. priodasol
Sponsion, s. addewid, ammod; cyngwystl, cwyn
Sponsor, s. mach; alltraw
Spontaneity, s. gwirfoddolrwydd, rhydd ewyllys
Spontaneous, adj. gwirfoddol, naturiol; difyfyr
Spool, s. gwerthyd.—*Spooling wheel*, rhod nyddu
Spoom, v. chwyrn fyned
Spoon, s. llwy; v. dadlwytho
Spoonful, s. llwyaid
Sport, s. camp, difyrwch; helyaeth; v. ymddifyru
Sportful, a. chwareugar, difyr
Sportsman, s. heliwr
Spot, s. màn, magl, brycheuyn; v. a brychu, manu
Spotless, a difrycheulyd
Spotted, a. manedig, brith
Spotty, a. brith, brych, manog
Spousal, a. priodasol
Spouse, s. dyweddi, priod
Spout, s. pistyll; ffrwd; genau pistyll, dwsel; v. pistyllio
Sprain, s. twrf, tyrflad; ysigiad; v. tyrfu, ysigo
Sprat, s. còr-benwag, math o for bysg, dyhiryn, coegyn
Sprawl, v. ymdaenu ar y ddaear, creinio, ymgreinio, ymysgrain; rhwyfo'r angeu
Spray, s. brigyn, ysbrigyn; mordaenell, mor-ysgai, mor-ewyn
Spread, s. taenfa; ymdaeniad, taeniad, llediad; part. taenedig, ar wasgar; v. estyn, taenu, lledu; gwasgaru
Sprig, s. brigyn, ysbrigyn
Spriggy, a. brigog
Spright, s. ysbryd, ellyll
Sprightful, a. bywiog, hoenus
Sprightfully, ad. yn fywiog
Sprightfulness, s. bywiogder
Sprightly, a. bywiog, hoyw
Sprightliness, s. bywiogrwydd
Spring, s. gwanwyn; gorllanw ffynon; cliced, gwthiedydd; naid, twythiant; tyn-lafn; v. a. neidio, tasgu, twythaw; rhutho; tarddu, egino; ymagenu; hollti; gwawrio; cloddio; chwythu a phylor
Springal, s. glaslanc, llencyn
Springhalt, s. clunheciant
Springhead, s. llygad y ffynon
Spring-tide, s. penilif; uchel-for
Spring-water, s. dwfr ffynon
Spring, springle, sub. croglath, byddag
Springiness, sub. gwrthneidiolrwydd, twythedigaeth
Springy, a. gwrthneidiol
Sprinkle, v. taenellu
Sprinkling, s. taenelliad
Sprit, s. blaguryn; v. blaguro

Sprite, s. ellyll, hudwg
Spritsail, s. hwyl flaen llong
Sprout, s. adfresych; ysgewyll; v. a. blaguro, egino
Spruce, s. ffeinidwydd; a. tlws, hoyw, pinc, corc, pert
Spruce-beer, sub. diod wedi ei blasu gan gangau ffeinidwydd
Sprucely, ad. yn hoyw
Spruceness, s. hoywder
Sprucify, v. tacluso, hoywi
Sprung, part. a neidiodd
Spud, s. hen seidyn cyllell
Spue, v. cyfodi, chwydu, gloesi
Spume, s. ewyn, gorferw; v. a. ewynu, malu ewyn
Spun, part. nyddedig; v. nyddais, nyddodd, &c.
Spunk, sub. pren gwyn, pren pwdr sych; arial, bywyd
Spunge, s. yspwng, gwlan y mor
Spunging-house, sub. geoldy'r ceispwl, y flingfa
Spungy, s. yspyngaidd, yspyngog, chwisoglog, meddal, masw, gwagsaw
Spur, s. yspardyn, ethy, barog; swmbwl; cymhellai
Spur-gall, s. llwgr yspardyn
Spurge, s. fflamgoed, llysiau'r cyfog, llaeth y cythraul
Spurious, a. gau, ffugiol
Spuriousness, s. ffugioledd
Spurn, v. a. gwingo; gwrthod gyda dirmyg
Spurning, s. gwing, gwingiad; a. gwingog
Spurt, s. ffrydiad; byr-ffwdan; v. ysbongcio; pistyllio
Sputter, sub. godwrdd; v. a. saethu poer wrth siarad
Spy, sub. yspiwr; v. a. yspio, edrych; gweled; chwilio
Spyed, spied, part. a ganfuwyd
Spy-glass, s. yspienddrych
Spying, part. yn canfod, yn gweled
Squab, sub. sach-glustog; cyw colomen; dyn pwt; a. dibluf; byrdrew, trolog, pwt; v. a. syrthio yn syth; taro yn deisen
Squabbish, a. telpynaidd; tew
Squabble, s. cynhen, amryson; v. cynhenu, cwympo i maes
Squabbler, s. cynhenwr, cecryn
Squadron, s. llynges; byddin
Squalid, a. brwnt, bawlyd, cas, taeog
Squalidity, s. aflendid; brynti
Squall, s. ysgrech; awel ddisymwth, chwaw
Squalling, s. ysgrech
Squally, a. chwawiog, awelog
Squalor, aflendid, diffeithder
Squamose, squamous, a. ceuog
Squander, v. gwasgaru, gwastraffu, afradloni
Squandered, part. gwastraffedig
Squanderer, s. gwastraffwr
Square, sub. ysgwar, pedroryn, petryal; petryalai; lluniodr; ysgwar, pedwar ochrog; v. ysgwario, dyochri
Squash, v. llethu
Squat, sub. dyn byr llydan; a. byrllydan, ystyfflog; v. eistedd yn ei gwrewd, cyrcydu
Squeak, v. a. gwichio
Squeaking, s. gwichiad; part. dan wichad
Squeal, v. a. gwich-grio; chwareu wihi, gwilhersu
Squeamish, a. gwrthneugar
Squeamishly, ad. yn wrthwyneblyd
Squeamishness, s. ffleiddrwydd
Squeeze, s. gwasg; v. gwasgu
Squeezed, part. gwasgedig
Squeezing, s. gwasgiad
Squelch, s. syrthiad trwm
Squib, s. ffug-fellten; ffiamig; duchan
Squill, s. winwyn y mor
Squinancy, squincy, s. y fynyglog, yr hychgrug

Squint, a. gŵyr; v. llygad-wyro
Squint-eyed, a. llygad-draws
Squinting, a. llygad-ŵyrad; par. yn llygad-wyro
Squintingly, ad. dan lygad ŵyro
Squire, s. yswain
Squirrel, s. wiwer
Squirt, s. chwistrell; v. chwistrellu
Squitter, v. a. ysgothi, pibo
Squob, s. clustog esmwyth
Stab, s. brâth, gwân; trywan; v a. brathu, trywanu
Stabbed, part. wedi ei frathu
Stabber, s. brathwr, trywanwr
Stabbing, s. brathiad; part. yn brathu
Stabiliment, s. cadarnhad, à teg
Stability, s sefydlogrwydd, diogelwch, cadernid
Stable, s. marchdy; a. sefydlog, cadarn; v. a. sefydlu; ystablu
Stableness, s. sefydlogrwydd
Stabling, s. ystablfa, ystabliad
Stablish, v. sefydlu
Stablished, a. sefydledig
Stack, s. das, mwdwl, cogwrn, ystac; v. dasu, deisio
Staddle, stadle, sub. ystol bera, marchwydd dâs
Stadium, s. ystaden
Stadtholder, s. penadur
Staff, s. ffou; paladr; penill: y pen cadbeniaid mewn llu
Staff-bearer, s. berllysg-ddygydd
Stag, s. cellaig, cerwyd, carw
Stage, s. taflod; chwareufa, chwareufwrdd; gorsaf, taith, gradd
Stage-coach, s. taith-gerbyd
Stage-play, s. chwareu dynwared
Stage-player, a. chweryg
Stage-playing, s. chwerygaeth
Staggard, s. carw 4 blwydd
Stagger, v. palfalu; siglo, ymsymud, honcian; ammau
Staggers, sub. y dera, penddar, penddaredd, pendro, gysp
Stagnant, a. llonydd, marw
Stagnate, v. croni, llynio
Stagnation, stagnancy, s. llyniad, croniad, merllydrwydd
Staid, stayed, a. araf, esmwyth
Staidness, s. arafwch, tawelwch
Stain, s. man, brychi, difwynad; v. difwyno, brychu
Stained, part. halogedig
Stair, s. gris, gradd, lled-ddring
Staircase, s. grisiau, esgynfa
Stake, s. pawl, ystacan; perygl yr adneu, y cyngwystl
Stalactitæ, s. crisial-bibonwy
Stale, s. trwnc, lleisw; ffon ysgol; a. hen; diflas; v. piso
Staleness, s. hender
Stalk, s. paladr, corsen; uchelfrawd, araf-gam; v. paladru; rhodio yn ben-uchel
Stalking-horse, s. ceffyl adara
Stall, s. côr; ystal, gwerthfa
Stallage, s. ffeir-doll
Stalled, a. pasgedig
Stallion, s. march, amws
Stamina, s. gwyddorion, hâd; briger blodeu
Stamineous, a. edafeddog
Stammer, v. cecian, myngial
Stammerer, s. cecianwr
Stammering, s. atal-ddywediad
Stamp, s. argraff, nôd, ôl, sathr; llun, cyn-ddelw; nod-beiriant; v. sathru; pwyo, nodi, bathu, argraffu; briwo
Stanch, a. diddos; cyfan; sicr; cadarn; v. atal; sychu
Stanchion, s. àteg, àtegbost
Stanchness, sub. cadernid; diddosrwydd; cyfander
Stand, s. safiad; sefyllfa; petrusdod; v. sefyll; bod; aros
Standard, sub. lluman, pensel; profiedydd; a. gosodedig; safadwy, cyfreithlon
Standard-bearer, s. llumanwr
Standing, s. safiad, safle, sefyllfa; oed, arosfa; a. sefydledig
Standish, s. du-lestr, corn du

Stang, s. perc, 5 llath a haner
Stannary, sub. ystaenglawdd; a. alcanaidd
Stanza, s. gair, penill
Staple, s. marchnadfa; dolen; derbynai hollt clo; a. sefydlog, marchnadol
Star, s. seren; pl. sêr
Starboard, s. ochr ddëau llong
Starch, s. syth; a. cymhenfalch
Starched, adj. sythedig; ffroenuchel
Stare, s. drudwen; llygadrythiad; v. a. llygadrythu, syllu
Star-gazer, s. sêr-dremydd
Staring, a. hyll; part. dan lygadrythu
Stark, a. syth afrywiog; hollol
Star-light, s. goleu sêr, serliw
Starlings, sub. drudws, adar y drudwy, adar yr eiry
Starry, a. serenog
Start, s llam, tasg; rhuthr, braw, cychwynfa; v. tasgu, osgoi, cychwyn; rhuthro, llamu
Startle, s. braw; v. dychrynu
Starve, v. a. newynu, trengu o newyn; fferu, rhynu
Starveling, s. dyn bolwag
Statary, a. sefydlog, safadwy
State, s. ansawdd, cyflwr, sefyllfa; gwladwriaeth; rhwysg: v. a. adrodd, trefnu, dodi i lawr
State-bed, s. teyrn-wely
State-craft, s. teyrn-ystryw
Stateliness, s. rhwysg
Stately, a. uchelwych
Statesman, sub. un hyddysg mewn teyrn-ddichellion
Static, statical, a. pwysol
Station, s. gorsaf, safle, sefyllfa, lle; galwad; v. sefydlu, gosod
Stationary, a. sefydlog
Stationer, s. gwerthydd papur a chelfi ysgrifenu, &c.
Statuary, sub. cerfiwr delwau; delwedyddiaeth
Statue, s. delw, cerfyll
Stature, s. maint, uchder
Statute, s. deddf, cyfraith
Statute-book. s. deddf-lyfr
Stave, s. erwydden; ysgyren; v. dryllio yn erwydd
Staves, s. erwydd; ffyn
Stay, s. arosiad; à teg; v. aros; attegu
Stays, s. gwasgrwym
Stead, s. lle
Steadfast, a. sicr, diysgog
Steadfastly, ad. yn sicr
Steadfastness, s. dianwadalwch
Steadily, ad. yn ddianwadal
Steadiness, s. dianwadalwch
Steady, a. cadarn, dianwadal
Steak, a. golwyth, darn o gig
Steal, v. lledrata, dwyn, cipio
Stealer, s. lleidr, dygwr
Stealth, a. lladrad, lledrad
Stealthy, a. lladradaidd, dirgel
Steam, s. ager; v. agerddu
Steed, s. march, amws
Steel, s. dur, balaen; v. durio
Steel-yard, s. pwyslath, durlath
Steep, s. dibyn; a. serth, llethrog: v. mwydo, gwlychu
Steeple, s. clochdy
Steepness, s. llechweddiad
Steer, s. bustach, enderig; v. llywio, cyfeirio
Steersman, s. llywiedydd
Steganography, s. dirgel-ysgrifenyddiaeth
Stegnotic, a. bolrwymol
Stellar, a. serenog
Stellate, a. sêr-fanog
Stelliferous, a. serenog
Stellionate, s. twyll-werthiad
Stem, sub. paladr; cyff; duryn; llong; tylwyth; dal, atal
Stench, s. drewiant; v. drewi
Stenography, s. byr-ysgrifiaeth
Stentorian, a. crochleisiawl
Stentorophonic, a. crochleisiawl
Step, sub. cam, cerddediad; ol troed; ffon ysgol: v. camu
Stepfather, s. llysdad

Stepmother, s. llysfam
Stercoration, s. teiliad, tomiad
Stereography, s. arwyneb-lun
Stereometry, s. tryfesuriaeth
Stereotype, s. ystrydeb
Steril, a. anffrwythlon, hesp
Sterility, s. diffrwthyder
Sterling, s. adail i amddiffyn seilian pontydd; arian cymeradwy; a. pur, cyfreithlawn
Stern, s. pen ol llong; a. sarug
Sternness, s. sarugrwydd
Sternon, s. asgwrn y ddwyfron
Sternuation, s. entrewiad
Stew, s. twymdy; puteindy; v. mall ferwi cig
Steward, s. goruchwyliwr
Stewardship, s. goruchwyliaeth
Stick, s. pren, ffon; v. glynu; petruso
Stickiness, s. glydiogrwydd
Stickle, v. ymdrafferthu
Stickler, s. ymdrafferthwr
Sticky, a. glydiog
Stiff, a. syth, anhyblyg; caled
Stiffen, v. syth-galedu
Stiffened, part. sythedig
Stiffnecked, a. gwargaled
Stiffness, s. ystyfnigrwydd
Stifle, v. mygu; diffoddi, celu
Stigma, s. haiarn nodi; nod, gwarth-nod, anair
Stigmatize, v. gwradwydd-nodi
Stile, s. camfa, cysgodbin deial
Stiletto, s. bidog, crwnlafn
Still, s. dysdyll-beiriant; adv. eto, o hyd, hyd yn hyn; a. tawel, llonydd; v. tawelu, llonyddu; dysdyllio
Stillatory, s. dysdylldy
Stillborn, a. marw anedig
Stillness, s. tawelwch
Stilts, s. tudfachau, baglau
Stimulate, v. cymhell, syniglaw
Stimulation, s. cymhelliad
Stimulus, s. cymhellai, synigl
Sting, s. colyn; v, brathu, pigo
Stinginess, s. crintachrwydd
Stingless, a. digolyn
Stingo, s. hen gwrw cryf
Stingy, a. anhael, crintach
Stink, s. drewdod; v. drewi
Stinking, a. drewllyd
Stint, s. terfyn; dogn; v. a. terfynu, rhagosod; penodi; cwttogi, rhanu yn brin
Stipend, s. tâl, cyflog, hur
Stipendiary, s. cyflogddyn; adj. cyflogedig
Stipulate, v. àmodi
Stipulated, part. amodedig
Stipulation, s. amodiad
Stir, s. terfysg, cynhwrf; v. annog, cynhyrfu; syflyd
Stirring, s. syfliad; ail-âr; par. yn cyffroi; yn codi o'r gwely
Stirrup, s. gwarthafi, gwrthafi
Stitch, s. pwyth; gwaew, pigin; v. pwytho
Stithy, s. einion, eingion; y croenlyn-glwyf
Stive, v. myrnio; mygu; rhoi un yn yr enaint twym
Stiver, s. dimai yr Is-Ellmyn
Stoat, s. carlwm, gwenci
Stoccado, s. bidog-frathiad
Stock, s. cyff, boncyff; bonedd, cenedl; da, anifeiliaid; cyffnwyddau, nwyddau; dyled sefydledig gwlad; casgl, cyfoeth; math o wddf-lian, &c.; v. cyffio; dogni tyddyn o anifeiliaid; diwreiddio, &c.
Stock-dove, s. ysguthan, cuddan
Stocking, s. hosan; pl. hosanau
Stock-jobber s. arian-fasna chwr
Stocks, s. cyffion; trysorfeydd y llywodraeth; dyledion teyrnas; seil-gyffion llong
Stoic, s. stoiciad
Stole, s. gwisg offeiriadol; v. a. lledratêais, ledratâodd, &c.
Stolidity, s. ffoledd
Stomach, s. cylla; archwaeth, chwant bwyd, blys; blas; dig; v. blasu; digio

Stomacher, s. dwyfroneg
Stomachic, s. physig i'r cylla; a. llesol i'r cylla, cylläol
Stone, s. careg, maen, llech; 14 pwys; v. llabyddio
Stone-crop, s. manion y ceryg
Stone-cutter. s. maen gerfiwr
Stone-horse, s. march-amws
Stone-pit, s. maen-glawdd
Stony, a. caregog; caled
Stock, s. ysgafu, cogwrn o ŷd
Stool, s. mainc, ystol, ymgarth
Stoop, v. plygu, ymostwng
Stop, s. arosiad; ataliad; gorphwysnod, atalnod; v. a. cau, atal, rhwystro, gorphwys
Stoppage, s. rhwystr, ataliad
Stopple, s. canedydd; topyn
Storax, s. math o ystawr
Store, s ystor, trysor; amledd; v. ystorio; cynnysgaethu
Storehouse, s. ystordy
Stork, s. ciconia, chwibon
Storm. s. ystorm, tymhestl; rhyferthwy; v. a. tymhestlu
Stormy, a. ystormus, tymhestlog
Story, s. hanes; chwedl; ffug; esgynfa, llofft; v. traethu
Stout, a. mawr, cryf, cadarn; calonog; dewr, glew
Stoutness, s. glewder, cryfder
Stove, s. saf-reidell; twymynfa
Stow, v. cyfleu, trefnu
Stowage, s. ystorle, ystor-dâl
Stowed, a. ystoredig
Straddle, v. myn'dâ'r traed ar led
Straggle, v crwydro
Straggler, s. crwydryn
Straight, adj. uniawn; adv. yn uniawn, yn gymhwys
Straighten, v. unioni
Straightness, s. unionedd
Straightways, ad. yn ebrwydd
